

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Meddygfa Dinbych-y-pysgod, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad y gweithgarwch: 08 Mehefin
2021

Dyddiad cyhoeddi: 13 Gorffennaf 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Feddygfa Dinbych-y-pysgod fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Practis meddygon teulu a reolir gan y bwrdd iechyd yw'r feddygfa, sy'n darparu gofal sylfaenol i drigolion Dinbych-y-Pysgod a'r cyffiniau, cartrefi gofal lleol ac, yn fwy diweddar, gwersyll ffoaduriaid Penalun.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis, y meddyg teulu arweiniol a Phennaeth Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol - Cynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd ar 8 Mehefin 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

1. Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
2. Pa mor effeithiol y gall y gwasanaeth gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gofal y tu allan i oriau ar hyn o bryd?
3. Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau y caiff safonau atal a rheoli heintiau eu cynnal?
4. Sut mae'r gwasanaeth yn sicrhau y gall cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/wynebu risg) gael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel o ran amgylchedd y practis a threfnu apwyntiadau.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiad yn ymwneud â phandemig COVID-19 o ardaloedd clinigol
- Amserlenni glanhau ar gyfer y toiledau
- Polisi glanhau'r Bwrdd Iechyd

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod nifer o newidiadau wedi'u gwneud ar ddechrau'r pandemig i addasu'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol a rheoli heintiau'n effeithiol. Ymhlith y rhain roedd creu system un ffordd o amgylch y practis, cyfyngu ar nifer y cleifion y gellid eu derbyn i'r ystafell aros drwy ofyn i gleifion beidio â chyrraedd cyn amser eu hapwyntiad, a'r trefniadau i sychu arwynebau ar ôl i gleifion eu defnyddio. Dywedwyd wrthym fod staff clinigol yn casglu cleifion pan oeddent yn barod i gael eu gweld, ac yn eu tywys i'r ystafelloedd clinigol.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod yr amgylchedd yn cael ei fonitro'n ddyddiol.

Gwelsom dystiolaeth bod arwyddion wedi'u gosod o amgylch y practis ac anfonwyd lluniau atom o orsafoedd diheintio dwylo wrth fynedfeydd ystafelloedd.

Gwelsom dystiolaeth bod cofnodion glanhau yn cael eu cadw ar gyfer toiledau'r staff a'r cleifion, a dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael ei friffio ar sut i lanhau'r ystafell ymolchi'n ddigonol bob tro ar ôl iddi gael ei defnyddio.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor drwy gydol pandemig COVID-19. Gallai cleifion ofyn am ymgynghoriad drwy eConsult¹ neu dros y ffôn. Pe bai angen clinigol, byddai'r

¹ Ap meddygol yw eConsult a ddatblygwyd i alluogi meddygon teulu i gynnig ymgynghoriadau ar-lein i'w cleifion

claf yn cael ei wahodd i apwyntiad yn y practis. Dywedwyd wrthym pe na bai claf yn gallu defnyddio eConsult na'r ffôn, y gallai'r practis fodloni ceisiadau gan gleifion am apwyntiadau wyneb yn wyneb, ond nid oedd hyn yn cael ei annog heblaw bod angen.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cwblhau asesiadau risg unigol yn ymwneud â COVID-19² bob chwe mis, heblaw bod newid yn eu hiechyd yn ysgogi adolygiad.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedwyd wrthym nad yw'r practis yn cadw cofnodion glanhau ar gyfer ystafelloedd ar wahân i'r toiledau, a hynny oherwydd y baich y byddai hyn yn ei roi ar y staff. O ganlyniad, ni fu modd i ni gael sicrwydd bod holl ardaloedd y practis yn cael eu glanhau'n briodol. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd uniongyrchol. Cawsom sicrwydd gan y practis a'r bwrdd iechyd drwy eu hymateb i'r mater hwn, a oedd yn cynnwys cyflwyno gwiriadau ac adolygiad o'r trefniadau cadw tŷ.

Dywedwyd wrthym y gallai'r practis gynnal ymweliadau â chartrefi gofal a chartrefi cleifion o hyd pan fyddai'r angen yn codi. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd asesiadau risg wedi'u cwblhau ar gyfer clinigwyr yn benodol mewn perthynas ag ymgymryd â dyletswyddau clinigol oddi ar safle'r practis. Roedd ymweliadau â chartrefi gofal, cartrefi cleifion a gwersyll ffoaduriaid Penalun yn, neu wedi cael eu cynnal heb i'r broses asesu a gwblhawyd gael ei chofnodi. Cawsom sicrwydd gan y practis a'r bwrdd iechyd drwy eu hymateb i'r mater hwn, a oedd yn cynnwys sicrwydd bod asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer ymweliadau ac aelodau unigol o'r staff yn ôl yr angen.

Gwelsom fod yr asesiad risg yn ymwneud â COVID-19 o ardaloedd clinigol yn dangos bod gan y practis ystafell 'ardal goch'³ ddynodedig i ynysu cleifion â symptomau COVID-19. Fodd bynnag, gwelsom fod yr ystafell hefyd yn cael ei defnyddio bob bore ar gyfer gwasanaethau fflebotomi ac ar gyfer y rhan fwyaf o archwiliadau clinigol gan feddygon teulu bob prynhawn. Os caiff ystafell goch ei nodi mewn practis, dylid sicrhau bod yr ystafell hon ar gael cymaint â phosibl er mwyn lleihau'r risg y byddai angen ynysu claf yn rhywle arall pe bai'r ystafell hon yn cael ei defnyddio. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Cawsom sicrwydd gan y practis a'r bwrdd iechyd drwy eu hymateb i'r mater hwn, a oedd yn cynnwys sicrwydd bod ystafell addas wedi'i nodi'n 'ystafell goch'. Dim ond at y diben hwn y defnyddir yr ystafell erbyn hyn.

² Datblygwyd Adnodd Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu i Gymru Gyfan er mwyn helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG ac ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt yn wynebu risg uwch o ddatblygu symptomau mwy difrifol os byddant yn dod i gysylltiad â feirws COVID-19. Nod yr adnodd yw helpu staff i ddeall a allant o bosibl fod yn wynebu mwy o risg, a'u helpu nhw a'u rheolwr llinell i ddewis y camau gweithredu cywir yn seiliedig ar lefel y risg.

³ Mae ardaloedd coch hefyd yn cyfeirio at ardaloedd dynodedig neu lwybrau cleifion ag achos a gadarnhawyd neu a amheuir o COVID-19.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Data ar hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar gyfer y staff (heb gynnwys y meddygon teulu)
- Amserlenni glanhau ar gyfer y toiledau
- Polisi glanhau'r Bwrdd Iechyd
- Cofnod o brofion tymheredd y staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod y practis yn dilyn polisi'r Bwrdd Iechyd ar gyfer atal a rheoli heintiau. Mae'r polisi wedi cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r broses o reoli COVID-19.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Rhoddyd gwybodaeth i ni yn ymwneud â hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, a oedd yn dangos bod rhai o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Fodd bynnag, ni chawsom dystiolaeth bod y meddygon teulu wedi cael yr hyfforddiant hwn nac ychwaith fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf. Dywedwyd wrthym nad oedd aelodau anghlinigol o'r staff wedi cael hyfforddiant ffurfiol ar wisgo⁴ a diosg⁵ cyfarpar diogelu personol (PPE).⁶ Gan y gallai'r aelodau hyn o'r staff ddod i gysylltiad â'r cyhoedd, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hyfforddi'n ddigonol er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu eu hunain a'r cleifion. Rhaid i'r practis sicrhau y gall pob aelod o'r staff fanteisio ar bob math o hyfforddiant, ac y caiff pob aelod o'r staff hyfforddiant rheolaidd ar atal a rheoli heintiau.

Rhoddyd y bwrdd iechyd sicrwydd i ni yn dilyn yr archwiliad fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant lefel 1 ar reoli heintiau neu y byddent yn gwneud hynny yn fuan. Cawsom gadarnhad hefyd fod pob aelod o'r staff, gan gynnwys y staff gweinyddol, wedi cael hyfforddiant ar wisgo a diosg PPE. Yn ychwanegol at hyn, cadarnhaodd y bwrdd iechyd y byddai'n dechrau cynnal archwiliadau o brosesau gwisgo a diosg PPE.

Ar wahân i asesiad risg yn ymwneud â COVID-19 y Bwrdd Iechyd o ardaloedd clinigol, ni chawsom dystiolaeth o unrhyw archwiliadau clinigol fel rhan o'r broses hon, gan gynnwys archwiliadau o PPE neu hylendid dwylo. Mae'n ofynnol i bractisau gynnal archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod trefniadau clinigol effeithiol ar waith i atal heintiau rhag

⁴ "Gwisgo" yw'r broses o wisgo cyfarpar diogelu personol yn ddiogel.

⁵ "Diosg" yw'r broses o dynnu cyfarpar diogelu personol yn ddiogel.

⁶ Ystyr Cyfarpar Diogelu Personol yw cyfarpar a fydd yn diogelu'r defnyddiwr â'r claf rhag risgiau megis heintiau yn lledaenu.

lledaenu. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Cawsom sicrwydd gan y practis a'r bwrdd iechyd drwy eu hymateb i'r mater hwn, a oedd yn cynnwys cyflwyno nifer o archwiliadau. Roedd yr archwiliadau hyn yn cwmpasu nifer o feysydd, gan gynnwys glendid a PPE.

Dywedwyd wrthym nad oedd amserlenni na chofnodion glanhau yn cael eu cwblhau nac ar waith ar gyfer pob ardal. Roedd cofnodion ar gael ar gyfer y toiledau, ond nid oedd rhai ar gael ar gyfer yr ardaloedd clinigol lle roedd cleifion yn cael gofal. Nid oedd hyn yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd ar atal a rheoli heintiau. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd uniongyrchol. Cawsom sicrwydd gan y practis a'r bwrdd iechyd drwy eu hymateb i'r mater hwn, a oedd yn cynnwys cyflwyno archwiliadau ac adolygiad o'r trefniadau cadw tŷ.

Ni allai rheolwr y practis roi unrhyw dystiolaeth na sicrwydd bod y staff wedi cytuno â'r fersiwn ddiweddaraf o'r Weithdrefn Safonol.⁷

Roedd yr archwiliad amgylcheddol yn ymwneud â COVID-19 a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2020 ac a gynhaliwyd eto ym mis Ebrill 2021, yn dangos gwelliannau cyffredinol mewn nifer o feysydd. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd yn parhau heb eu cwblhau neu ni chawsant eu harchwilio fel rhan o'r archwiliad a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2021. Er enghraifft, ni welwyd amserlenni glanhau, roedd yr ystafell ynysu yn dal i gael ei defnyddio at ddibenion eraill, ac roedd rhai ardaloedd yn dal i fod yn anniben.

Yng ngoleuni pandemig COVID-19, dylid rhoi blaenoriaeth i'r angen i sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith i ddiogelu cleifion rhag COVID-19, a mathau eraill o salwch.

Cawsom sicrwydd gan y practis a'r bwrdd iechyd drwy eu hymateb i'r mater hwn, a oedd yn cynnwys cynnal yr archwiliad eto a chynllun gweithredu cysylltiedig i fynd i'r afael â meysydd o bryder. Byddwn yn parhau i gysylltu â'r practis i fonitro ei gynnydd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ni wnaethom edrych ar unrhyw ddogfennau allweddol yn yr adran hon.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi cael eu rheoli'n dda yn ystod y pandemig. Roedd y

⁷ Cyfres o gyfarwyddiadau cam wrth gam yw'r Weithdrefn Safonol a lunnir gan y Bwrdd Iechyd neu'r practis, er mwyn helpu cyflogeion i gyflawni tasgau i safon y cytunwyd arni.

staff wedi gweithio ar sail rota lle bo angen er mwyn sicrhau y gellid cadw pellter cymdeithasol yn y practis ac y gellid diogelu staff yr oedd angen iddynt hunanynysu neu warchod.⁸

Dywedwyd wrthym fod amrywiaeth o gymorth ar gael drwy'r clwstwr lleol⁹ er mwyn sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau yn ystod y pandemig a'r tu hwnt iddo. Mae'r clwstwr wedi gweithio gyda gwasanaethau eraill, gan gynnwys fferyllfeydd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, a gwasanaethau gofal eilaidd i gynnig llwybrau clir a hawdd at gyngor a chymorth.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn dechrau cael eu cynnal yn y practis unwaith eto. Cafodd y rhain eu cynnal drwy Teams yn ystod y pandemig, ochr yn ochr â thrafodaethau anffurfiol pan oedd y staff yn y practis. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth o gofnodion cyfarfodydd. Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion cyfarfodydd tîm eu cadw fel y gall y staff gael gafael ar gofnod o'r trafodaethau pan fydd angen.

⁸ Ystyr Gwarchod, yng nghyd-destun pandemig COVID-19, yw dull a gyflwynwyd gan y Llywodraethau i ddiogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn glinigol, drwy ofyn iddynt beidio â gadael eu cartrefi a lleihau pob cyswllt wyneb yn wyneb cymaint â phosibl.

⁹ Ystyr Clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Caiff **Clystyrau** eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol unigol GIG Cymru. Mae meddygon teulu yn y **Clystyrau**'n chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith (iechyd) Ardal.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Meddygfa Dinbych-y-pysgod

Gwasanaeth: Meddyg Teulu

Dyddiad y gweithgarwch:
08/06/2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r practis sicrhau y cedwir cofnodion digonol o gytundeb y staff â'r Weithdrefn Safonol.	Safonau lechyd a Gofal	Mae Gweithdrefn Safonol ar gyfer glanhau'r safle yn cael ei chyflwyno, ochr yn ochr â hyfforddiant a sesiynau goruchwyllo rheolaidd. Caiff cofnod o gytundeb y staff glanhau â'r Weithdrefn Safonol ei gadw mewn ffeil. Caiff y cofnod hwn ei rannu fel tystiolaeth.	Goruchwyliwr Cyfleusterau Gwesty Rheolwr y Practis	30/07/2021
2	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion cyfarfodydd tîm eu cadw	Safonau lechyd a Gofal	Cynhelir cyfarfodydd y tîm clinigol yn wythnosol (wedi'u cadeirio gan	Rheolwr y Practis	30/07/2021

	fel y gall y staff gael gafael ar gofnod o'r trafodaethau pan fydd angen.		y Meddyg Teulu Arweiniol), a chynhelir cyfarfodydd y tîm gweinyddol bob pythefnos. Caiff y cofnodion/camau gweithredu eu dogfennu a'u rhannu â'r staff yn electronig ac ar ffurf copi caled mewn ffeil. Caiff copi sampl o gofnodion/camau gweithredu eu rhannu fel tystiolaeth.		
--	---	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Anna Swinfield

Dyddiad: 24/06/2021